YR YMOFYNYDD.

IF. 60.] RHAGFYR, 1863. [AIL GYFRES.

JOGUTH CHUNDER GANGOOLY.

(Parhad o tudal. 253.)

yr athrawiaeth o Uffern Dragywyddol y mae Joguth yn traethu ei farn fel a :—"Nis gallaf fi amgyffred fod dim yn dragywyddol ond Duw. Y mae ob peth ei derfyn ar ryw amser ac yn rhyw ffordd; ond Duw sydd ddi-fyn. Y mae Efe, ein Tad Daionus, yn anghyfnewidiol ac yn dragy-ddol. Y mae y Brenin Mawr yn Benarglwydd pawb—y nefoedd a'r ear a'u holl luoedd hwy. Os oes lle a elwir Uffern, rhaid ei fod o fewn ch ei Hollbresenoldeb Ef; canys nid oes dim nad yw yn cael ei adnabod, cael ei weled, ac wedi cael ei wneuthur gan Dduw. Nis gallai efe greu rn dragywyddol i boeni ei blant egwan a brau. Pa beth bynag y mae wedi ei greu, y mae wedi ei greu er eu daioni. Y mae nefoedd a daear holl ryfeddodau yn uno i roddi cyfran at hawddfyd creaduriaid Duw. nae pob peth o fewn, o allan, o amgylch, ac uwchlaw i ni yn siarad am iad didrai Duw tuag at ei blant. Y mae Duw wedi ein gosod ni dan ei lywod-th foesol, ac y mae troseddiad ei gyfreithiau moesol yn dwyn dioddefaint. nae yr un peth yn wir hefyd am ein perthynas i gyfreithiau Natur. Pan yddom yn eu tòri yr ydym yn dioddef oherwydd hyny, ac y mae'r di-efaint yn ammodol. Os gosodaf fy llaw yn y tân yr wyf yn union yn ldef oherwydd fy ffolineb. Yr wyf yn tynu fy llaw oddiyno ac yn pen-fynu peidio ei gosod yno drachefn. Os ei gosod yno a wnaf y mae'r un ldefaint yn anocheladwy.

Y mae'r Tad Holl-ddoeth wedi trefnu fod trosedd o'i gyfreithiau naturiol oesol yn dwyn dioddefaint; a dioddefaint yn dwyn edifeirwch; ac edi-wch yn dwyn diwygiad; ac y mae diwygiad yn cyfarfod a chymmeradwy-a gwên Duw. Dyna ydyw ei gyfreithiau ef, ac y mae yn rhaid iddynt awni eu cenadwri. Y mae Efe yn cospi er mwyn gwellhau ac nid er yn lladd. Y mae dammeg y Mab Afradlon yn profi gwirionedd hyn. llener hono. Pan ddaeth edifeirwch, pa beth a wnaeth y tad? A wedodd efe, 'Cerdd oddiwrthyf am byth, a bydd byw mewn trueni ywyddol?' Na, y mae efe yn rhy dda i hyny, yn rhy gariadlawn. Y yn dyfod allan o'i dŷ, yn rhoi groesaw i'r crwydryn yn ol, yn ei wisgo wisg oreu, ac yn gwneuthur gwledd. Y mae sôn yn y Beibl am 'dân ywyddol;' ond nid yw'r geiriau mewn ystyr yr hyn ydynt mewn sŵn. gwir fyddent yn llythyrenol, byddent yn rhoi'r celwydd i 'ddammeg y afradlon.' Ffordd gyffredin yn y Dwyrain yw i ddesgrifio cyflwr o dwyddwch. Pan oeddwn i yn fachgen yr oeddwn yn arfer darllen au fel hyn mewn llyfrau Hindwaidd. Dywedir fod gan Jom (neu angeu)

ei angylion y rhai ydynt yn dipio pechaduriaid mewn olew berwedig. maent yn gosod bachau mawrion yn eu gyddfau ac yn eu llusgo i leoe uchel, yn peri iddynt gofleidio pileri o dân, ac yn ddiweddaf oll yn eu gwth yn 'Nonuck Coondoo' neu'r pwll pwdel, lle nad yw'r pryf yn marw.

"Y mae nefoedd ac uffern yn ein mynwesau ni ein hunain. Yr ydym teimlo llawenydd y naill ac arteithiau y llall. Pan y byddom yn cyflaw ein dyledswyddau yn ffyddlon ac yn caru ein cymmydog fel ni ein hunai yr ydym yn cymdeithasu â Duw a'i angylion. Ar y llaw arall, pan byddom yn esgeuluso ein dyledswydd—yn ceisio chwantau'r cnawd—beiddio Duw a dyn trwy ein meddyliau a'n gweithredoedd, a thrwy hyny dwyn gofidiau, casineb y byd, ac adgno cydwybod, yr ydym yn gwneuth uffern o'n mewn. Calon bur a drylliog yw nefoedd, a chalon sydd yn ca hunan yn unig yw uffern. Rhywbeth fel yna yw'r rhesymau sydd gen dros beidio credu yr athrawiaethau hyn. Y mae fy Nghristnogaeth i dechreu lle mae Crist yn agor ei fywyd, ac yn terfynu lle mae'n ei ga Yn ei eiriau ef yr wyf yn cael fy nyledswydd tuag at, a'm perthynas i Ddu yn cael eu gosod yn amlwg. Yng Nghrist yr wyf yn cael dynoliaeth pe ffaith, ac Arweinydd diogel at ryddid, sancteiddrwydd, a chariad.

"Pan byddo Hindw yn rhoddi i fyny arferion ofergoelus ei wlad, yr hyn c o'r grefydd sydd yn aros gydag ef yw, ymlyniad wrth a chariad tuag at, a ymdrech i ufuddhau i rai o'r gwersi o dduwioldeb a moesoldeb sydd y wasgaredig drwy y llyfrau sanctaidd, y rhai ydynt yn gyffelyb iawn i pethau goreu yn yr Hen Destament. Y mae'r Cenhadwr uniawn gred yn dywedyd wrth yr Hindwaid nad yw'r llyfrau sanctaidd yma i gy ond *humbug*. Ni ŵyr y cenhadwr ddim yn y byd beth sydd yn y llyfra hyny. Ar yr un pryd y mae yn dywedyd, (meddai Joguth,) fod yr He Destament i gyd wedi ei ysgrifenu gan Dduw. Ni newidia fy nghydwlad wyr byth o'u crefydd am iawn-ffyddiaeth."

Trwy ei gyfeillach â Mr. Dall, a thrwy y llyfrau a'r traethodau a gafod yn fenthyg ganddo ef ac eraill, y mae ei galon yn serchu nid yn unig y Undodiaid America ond hefyd yn y wlad. Y mae yn darllen pob llyfr allo gael gafael arno ag oedd yn trin am America. Wrth ddarllen hanes Chwildroad y mae yn cydymdeimlo a'r Americaniaid ac yn anfoddloni y ddirfawr wrth y Saeson. Yr oedd yn llawenhau yn eu llwyddiant ac y penderfynu rhyw ddydd i dalu ymweliad â hwy. America oedd yn e galon ac ar ei dafod yn barhaus, yn gymmaint felly fel y dechreuodd bechgyn yn yr ysgol a'i deulu gartref ei wawdio am "ei America." O dywedai, "dyw'r brethyn yma ddim yn dda." "Cewch ei well yn America" oedd yr atteb.

Un prydnawn dydd Sul, fel yr oedd efe a dau arall yn myned i addoli gapel Mr. Dall, trodd yr ymddiddan ar y genhadaeth Undodaidd yn India Awgrymodd Baboo C.C.S., "Peth iawn fyddai i un o honom ni i ymwelec a'r brodyr yn America, a dywedyd wrthynt am ein anghenion a'n diolch an ddanfon Mr. Dall i'n plith." Dywedodd yr aethai efe drosodd yn union on bai ei wraig a'r plant a'r ysgol. Dywedodd Joguth y leicai efe yn fawr fynd, a bod un dyn ifangc arall a leicai fynd gydag ef. Ar ol y gwasanaeth adroddwyd yr ymddiddan wrth Mr. Dall, yr hwn a gafodd ei foddloni yn fawr. Yr oedd un J. M. Hurd o'r Unol Daleithiau yno yn bresennol gyda nhwy, yr hwn a addawodd ysgrifenu at y brodyr gartref, a gofyn i'r Gym deithas Undodaidd Americanaidd i roddi atteb i'w dymuniadau. Aeth mi

ol mis heibio. Gofynodd Mr. Dall os oeddynt yn barod ac yn bender-
iol. Attebodd Joguth ei fod ef yn benderfynol ond nid yn barod. Ei
n etto oedd yr anhawsdra mwyaf. Nid oedd erioed wedi gallu bod dair
swaith oddiwrth ei fam. Pan yn rhoi tro i dŷ un o'i chwiorydd, nid oedd
math o dywydd allai ei gadw rhag myned yn ol at ei fam. Ac etto nis
llai fwyta un math o gig, yr oedd hyd yn oed wyau hwyaid a phob peth
di ei gymmysgu â gwin yn wrthwyneblyd i'w ystymog. Y mae an-
wsderau newyddion yn eyfodi. Dywedodd un o *ddeistiaid* Calcutta wrth
cyfaill oedd ar fedr myned gydag ef, mai pobl ffyrnig ac anwaraidd yw yr
nericaniaid, y rhan amlaf o honynt yn wyllt, ac yn rhodio o amgylch â
wie-knives, a phistolion, ac arfau marwol eraill ganddynt, eu bod yn cadw
liynau o'u cyd-greaduriaid mewn caethiwed, ac na chaniatäent i un dyn i
ywedyd gair yn erbyn y gaethfasnach. Darllenodd "Gaban f' Ewyrth
m" ar yr amser yma. Yr oedd yn ystyried mai ffug-hanes ydoedd,
oblegid," meddai, "nis *gallaswn* gredu y gallai dyn brynu a gwerthu bod
nol, beth bynag y dichon fod ei liw, ei ddealldwriaeth, neu ei sefyllfa."
ywedodd ei gyfeillion wrtho fod y llyfr hwn yn rhoi hanes cywir o'r Gaeth-
snach yn America. Y mae ei ffydd yn yr Americaniaid yn cael ei siglo,
d y mae ei deimlad da tuag atynt yn ei rwystro i goelio'r cwbl a ddywedid
rtho am danynt, ac y mae yn dyfod i'r casgliad canlynol—"Gall fod caeth-
snach yn yr America,—y mae y wlad yn fawr, ac feallai ymhlith y cyn-
ddorion (preswylwyr cyntaf y wlad), y rhai ydynt anwariaid gwylltion, fod
system hon yn cael ei chario ym mlaen. Yr oeddwn yn gobeithio hefyd
el clywed fod pobl yr Unol Daleithiau yn ddiwyd yn ceisio gyru i bant y
verthwyr dynion. *Sad logic!* Gwelais ddarlun o'r *meistr*,—dyn gwyn, â
ot a het a *watchguard*. Hyd yn oed wedi'n dallswn i ddim a pherswadio
hunan i gredu fod y dyn hwn yn un o ddinasyddion yr Unol Daleithiau.
r oeddwn yn meddwl nad oedd hi ddim yn angenrheidiol i gredu fod pawb
r dynion gwynion yn ddynion da—*ruffians* di-enaid yw'r gwerthwyr gwŷr,
vragedd a phlant yma, y rhai nid yw cyfreithiau yr Unol Daleithiau Crist-
ogol ddim bob amser yn gallu eu cyrhaedd. Na! nid felly. Yr oeddwn
gamsyniol etto! Americaniaid ydynt,—disgynyddion y rhai a aethant
osodd o Loegr. Yn ddiweddaf daethum i'r casgliad nad oedd dim *menywod*
da'r caethfasnachwyr yma yn eu plith, oblegid buasai menywod addfwyn
thyner galon yn dwyn y fasnach ffiaidd i ddistryw. Er syndod mawr i mi,
wedwyd wrthyf fod gan y caethfasnachwyr eu teuluoedd, a'u heglwysi a'u
feiriadon, &c.! 'Dall'swn i ddim a meddwl fod crefydd bendigedig Crist
un rhan o'r byd wedi ei gwneuthur yn beiriant i weithio i'r dyn hunan-
isiol i foddloni ei drachwant, megys ag y mae yn Unol Daleithiau yr
merig. Duw yn unig a wyr faint y tristwch a barodd i fy nghalon i suddo
fy mynwes." Meddyliodd Mr. Dall y gallai ddadrys yr anhawsdra trwy
lywedyd fod Taleithiau Rhydd yn gystal a rhai caeth yn yr Undeb, ac mai
y rhai rhydd y mae yr Undodiaid. Ond y mae Joguth mor llym yn ei
litics (gwleidyddiaeth) ag yw yn ei ddifinyddiaeth. "Undeb o daleithiau
eth a *rhydd!* Rhaid mai undeb rhyfedd ydyw! Na! nis gall byny fod.
is gallai Paul yn iawn ddeall cymmundeb pethau o natur wahanol: 'pa
mmundeb (sydd) rhwng goleuni a thywyllwch?' (2 Cor. vi. 14—16).
ndeb o dân a dwfr, goleuni a thywyllwch, rhyddid a chaethiwed, y mae'r
th yn ammhosibl." Ei gasgliad olaf oedd fod dynion da yn America y
ai ydynt yn groes i'r gaethfasnach, ond fod yr holl Daleithiau drosti. Yr

oedd yr ymresymiad yma yn cymmeryd lle yn ei feddwl yn 1857. Onid y yn dangos ei fod yn rhyfedd o gyflym ei ddeall? "Darllenir," medda yn rhyw lyfr rhywbeth cyffelyb i hyn—

"The British flag floats over land and sea, And beneath it the slave is *free*."

ac nid oedd terfynau i fy llawenydd. Braidd y gallaswn ddarllen y geiria heb fod y dagrau yn codi i fy llygaid, a dywedais, "Di, Dad y tlawd, ber dithia'r *flag of England!* Chwyfia, chwyfia, di faner nerthol, â'r groes a dy fynwes, a thyn atat ac o dan dy nawdd isel a dirmygedig blant Duw Dy swynion di a doddant yr haiarn sydd yn rhwymo traed y caeth Chwyfia yn anrhydeddus ac yn uchel fel y caffo'r rhwymedigion dy wele trwy'r holl wlad helaeth o Maine i Florida, ac o Massachusetts i Galifornia!"

Yr hyfforddiadau a dderbyniodd Mr. Dall oeddynt i ddanfon *dau* ddy ifangc. Dywedodd amryw y buasent yn myned, ac nid oedd dim o Jogut yn un o'r rhai a ddewiswyd. Ond pan ddaeth yr amser, fe dynodd pob u o honynt yn ol. Yr oedd un neu ddau wedi sefyll yn ol rhag ofn y buasai Cadben yn myned a hwy a'u gwerthi yn gaethion yn y Taleithiau Deheuol Dim ond Joguth ddywedodd, "Gosodais fy nwylaw ar yr aradr ac ni thyna hwy yn ol." Yr *argument* diweddaf oedd, nad oedd yr Undodiaid ond ych ydig mewn nifer, set o ddynion beiddgar penboeth, heb ganddynt ddim gwirionedd, nac eglwys, na threfn sefydlog, &c. Atteb Joguth oedd, na oedd gwirionedd ddim bob amser yn caru trigo gyda'r rhif mwyaf. Pa ddistrywiodd Duw y byd trwy ddiluw, yr oedd ffydd Noah a'i deulu bychan yn wahanol iawn i ffydd y rhan amlaf, ond nid oedd wahaniaeth am hyny. Dewisodd Duw wirionedd y blaid fach a gwrthododd y lleill. Addawodd marsiandwr Hindwaidd o Calcutta dalu *passage* dau ddyn ifangc, ond n chafwyd neb ond Joguth yn foddlon mentro. Y mae dydd ei ymadawiad yn neshau. Y mae ei fam anwyl a charuaidd yn clywed am ei fwriad fyned tuag America. Y mae yn ei wylied. Byddai yn rhaid iddo ymadael a thŷ ei fam heb lyfrau, heb arian, ac heb ddim dillad ond yr hyn oedd am dano, ac hyd yn oed heb roddi ffarwel i'w fam anwyl yr hon oedd ar dòri e chalon. Barned y darllenydd ei deimladau y noson cyn ei ymadawiad. "Joguth," meddai ei fam, "pa beth yw'r cwmmwl yna sydd ar eich wyneb? Yr ydych yn edrych yn llwyd iawn. A ydych chwi yn anhwylus, fy mhlentyn? Dywedwch wrthyf pa beth sydd yn eich blino,—eich mam ydwyf fi. A ellwch ddim ymddired ynof, &c.? Ni wyddai beth i ddy wedyd, ond attebodd, "Mam, y mae gan ddyn ifangc lawer o bethau i feddwl am danynt." Aeth i fyny i'w ystafell, aeth ei fam ar ei ol. Ni wyddai efe beth i wneud. Eisteddodd ar ymyl y gwely. Dywedodd ei bod hi bron yn bryd iddo i fynd i'r ysgol. Dechreuodd yntau frysio rhag iddo greu drwgdybiaeth. Fel ag yr oedd, âg *un* crys, âg *un* fantell aeth allan o'r ystafell. Daeth ei fam ar ei ol a dywedodd, "Joguth, pa hyd y cymmer i chwi ddysgu gwisgo yn iawn," a dechreuodd ei osod dipyn mewn trefn. "Aethum yn drist iawn wrth feddwl na fuasai y dwylaw caredig yma yn cyffwrdd dim a *mi* ar ol dychwelyd o wlad Gristnogol. Y geiriau olaf a glywais o'i genau oeddynt, "Joguth, peidiwch a bwyta'r pethau melus yna ar y ffordd; yr ydych yn glaf, ac nis gall eich ystymog ddim o'u treulio, fy mhlentyn. Deuwch adref yn union o'r ysgol, a bydd eich swpper yn baro i chwi." "Fy mam" oedd fy meddwl, "bydd y swpper yr ydych chwi mo gariadus yn ei pharotoi i mi, y mae arnaf ofn, yn gleddyf daufiniog i chwi Nis gwn pa le y caf fi swpper heno, &c."

Ar y 27ain o Ionawr, 1858, hwyliodd ein harwr o Calcutta am Boston, wn llong o'r enw Sabine. Yr oedd Mr. Dall wedi bod gydag ef cyn ei adawiad ac "ymhlith cynghorion ereill caruaidd, defnyddiol, tadol a ddodd i mi, dywedodd wrthyf am beidio dysgu yr iaith halogedig a glyw-n yn y llong, ac yr oedd am gael clywed a oedd genyf unrhyw eiriau rwel i'w rhoddi iddo ef." Dywedais innau, "Gofalwch am fy mam wyl," a gwnaeth hyny mewn llawer ffordd. Rhoddodd Mr. D. lyfryn bychan do hefyd âg amryw gynghorion ac addysgiadau wedi eu hysgrifenu ynddo, lle iddo yntau i ysgrifenu pa beth bynag a ewyllysiai ar y ffordd. Ymhlith thau ereill 'roedd ganddo y penderfyniadau canlynol :—

(1) Darllenaf y Beibl mor aml ag y gallaf, gorphwysaf fy nghalon unig ar duw trwy ffydd a gweddi, a hyder yn Iesu Grist.

(2) Gweddiaf weddi'r Arglwydd bob dydd, a gorphwysaf fy holl ofalon ar Dyro i ni heddyw ein bara beunyddiol.' 'Dy ewyllys Di nid yr eiddof fi a neler.'

(3) Darllenaf, os gallaf, y Beibl *trwyddo* o Genesis i'r Dadguddiad, yn tod y daith, a gwnaf nodiadau os bydd yn bossibl o'r meddyliau goreu fel byddont yn ymddangos i mi, &c.

Y mae yn cael clefyd y môr trwy'r holl daith. Y mae'r cadben yn riadus iawn iddo. Ymhen 4 mis, ar y 24ain o Fai, a thranoeth yn y 36d. flwydd ar ol darganfyddiad Columbus, y mae Brahmin yn gosod ei oed am y tro cyntaf ar dir America. Y mae pob peth yn ei lanw â syndod, oedd megys wedi ei gyfodi i fyd arall. Treuliodd yr holl ddiwrnod cyntaf b weled un Undodwr. Dranoeth daeth Mr. Hendee, y cadben, ato a fynodd a oedd efe yn llefain, attebodd yntau fod ei galon yn llefain yn r. Danfonodd fachgen i'w arwain i swyddfa yr *American Unitarian As-ciation*. Y mae yn synu wrth weled tlysni y cwbl oddiamgylch, oddieithr *tobacco-chewers* brwnt a'r *cigar-smokers*. Y mae'r *sidewalks* yn ymddangos hynod iddo. Gwisgoedd y menywod yw'r pethau hynotaf braidd y ae'n weled. Er fod miloedd o fenywod tramor yn Calcutta, etto ni fu efe oed yn ddigon agos atynt i ffurfio un meddylddrych am eu gwisg. Y ae yn ymddangos iddo ef fel pe byddai rhyw *framework* dan y wisg, ac y ae yn ofni myned yn rhy agos rhag iddo dori'r *framework*, ond yr oeddynt y yn cerdded mor gyflym heibio iddo ef fel yr oedd yn teimlo yn ddi-hgar nad oedd y *frameworks* ddim yn rhwygo ei ddillad ef.

Erbyn un-ar-ddeg ar gloch cyrhaeddwyd y swyddfa, ac heb fod yn faith yn cafodd ei arwain oddiyno i Bedford-street. Yr oedd cyfarfod blynyddol *Association* yn cael ei gynnal yno ar y pryd. Arhosodd Joguth yn y *stry*, ac aethpwyd a'i annerchiad i mewn. Yr oedd Dr. Hedge yn siarad yr amser. Wedi i Dr. H. ddibenu, dywedodd Dr. Lothrop, *President* yr *sociation*, fod papur wedi ei osod yn ei law y funyd hòno yr hwn a fuasai ei ddarllen i'r cyfarfod. Darllenodd :—

"AT EIN BRODYR CRISTNOGOL YN AMERICA.

"*Anwyliaid yn yr Arglwydd,—Annerch* :

"Gras, Trugaredd, a Thangnefedd i chwi, oddiwrth Dduw ein Tad, a'r glwydd Iesu Grist!

"Yr ydym ni y brodyr yn Asia, a'r sawl sy gyda ni, yn eich annerch, yn cyflwyno i'ch gofal ddisgybl ifange, Philip Joguth Chunder Gangooly.

"Annerchiad dan law C. H. A. Dall,
"*Gweinidog yr Eglwys Undodaidd yn Calcutta.*

"Ynghyd ag henuriaid ac aelodau y *committee*, ymhlith y rhai ydym ni,
"Samuel Smith,
Unitarian Mission Rooms, Calcutta, No. 4, "H. Counsell,
Jank Square, Jan. 20, A.D. 1858." "Robert Nunn.

Dywedodd y *President* ym mhellach ei fod wedi clywed mai y dyn ifang ei hunan oedd wedi dod a'r papur yno. Braidd y cafodd ddywedyd cym maint a hynny pan ddaeth ein Joguth i mewn o'r *vestry* ar bwys y pulpud Creodd ei ymddangosiad dwrw mawr. Esgynodd i'r *platform*, a rhoddodd *president* ei ddeheulaw iddo gan roddi groesaw iddo yn enw y gymdeithas Desgrifid ef fel dyn ifange, main, croen-dywyll, tua 22ain oed, a llygaid dû llym a thanllyd, â gwyneb deallus a synwyrol ganddo. Trodd ei wyneb a y dorf yng nghanol distawrwydd mawr, a dywedodd mewn Saesneg da dealladwy, na wnai ond "dadgan y pleser a deimlai wrth gael ei roesawu gan y fath lu o gyfeillion, a'i obaith y buasent yn ei addysgu fel y galla ddychwelyd i India ac achub ei gydwladwyr oddiwrth eu eilun-addoliaeth a'u pechodau."

Wedi cael ei symmud o fan i fan, cafodd ei osod yn y diwedd dan ofal y Parch. Mr. Bush, Medfield, Massachusetts, lle bu am flwyddyn a rhagor yn ceisio gwella ei hunan mewn gwybodaeth o'r iaith Saisneg, &c. Cafodd y fraint o deithio trwy'r Taleithiau Gorllewinol a'r Canadas, ac ar y 10fed o Fehefin, 1860, cafodd ei ordeinio fel Cenhadwr Undodaidd i'r India. Dranoeth hwyliodd o Boston i Lerpwl: cyrhaeddodd Lerpwl ym mis Gorphenaf, ar ol taith o chwech wythnos. Bu yn pregethu ac yn darlithio yn Belfast, Dublin, Lerpwl, Manchester, Bristol, Leeds, Leicester a Llundain, &c. Yn yr Hydref aethpwyd ag ef ar daith trwy Ffraingc, Germany, Switzerland ac Italy, ond ar y laf o Ragfyr yr oedd yn Bristol drachefn. Y mae Undodiaid Prydain yn talu hanner ei draul fel Cenhadwr i Calcutta. Felly aeth yn ei ol fel Cenhadwr Americanaidd a Phrydeinig. Dywed fod Cenhadwyr o bob eglwys yn rhy *anti*-Hindwaidd i lwyddo gyda'r *castes* uchel. Etto meddai, os llwyddir i droi un o'r *castes* uchel, bydd hyny cystal a throi deg o'r *castes* isel. Ennillwch hwy ac fe ddilyna'r *castes* isel eu harweinwyr. Y mae diareb Hindwaidd yn dywedyd, "Arllwyswch ddwfr ar y *pen*, ac efe a wlycha yr holl gorph." Ond pa les yw gwlychu traed dynoliaeth? Y mae yn gofyn am gael pregethu Cristnogaeth yn ei ffordd ei hun. Nid yw yn meddwl dywedyd mai "humbug" yw pob peth yn yr Ysgrythyrau Hindwaidd. Dywed gyda Ram Mohun Roy fod Brahminiaeth yn ei phurdeb yn ffydd ragorol iawn, er nid cystal a Christnogaeth.

Gadawodd Loegr mis Ionawr, 1861, a chyrhaeddodd Calcutta ym mis Chwefror, wedi bod yn absennol am dair blynedd.

Yn ei "ffarwel" dywed—"Boed hyspys i chwi un waith etto, fy mod yn myned i'r India ond nid *adref.* Clywoch fi'n dywedyd lawer gwaith na gallaf, oherwydd derbyn y grefydd Gristnogol, ddim byw gyda fy mam Hindwaidd a chyfeillion anwyl ereill—neu yn hytrach, nis gallant hwy fyw gyda mi. Yr wyf yn myned megys oen i blith bleiddiaid; ac yn nyddiau profedigaeth, a thrallod a digalondid, edrychaf yn gyntaf i fyny at fy Nhad

: nef ac yna atoch chwi megys brodyr a chwiorydd i mi. Yr wyf yn yned i bregethu ac i ddysgu'r gwirionedd i fy nghyd-wladwyr anwyl yn ch enw a than eich nawdd chwi, ac yr wyf yn edrych atoch *chwi* am eich lp, am eich gweddiau a'ch bendith." "Duw a'ch bendithio gyfeillion ristnogol, mwyn, ac anwyl! Duw a'ch bendithio am eich caredigrwydd i i! Na foed i'ch dyddordeb ynof i farw pan yr elwyf o'ch golwg. Yr wyf ı myned i ymladd yn erbyn pechod, eilun-addoliaeth ac ofergoeledd, a ıwi sydd yn aros yn y gwersyll, neu yn y *magazine* yn hytrach, danfonwch mi *ammunition* ac hyfforddiadau yn ol fel y byddo angen. Dyna'r ffordd i ario'r gwaith yn y blaen. Hyderwch yn Nuw, crefydd India yn y dyfodol dd Gristnogaeth Rydd."

"Ffarwel i chwi oll am ychydig. Os arbeda Duw fy mywyd, dichon y euaf etto ar ol 4 neu 5 mlynedd o lafur Cristnogol, i geisio gorphwysfa yn ch cartrefi, ac i ddywedyd wrthych yn bersonol am waith Duw. Ac os ei vyllys Ef yw i mi ymadael a'r byd ar fyr, beth all ein rhwystro i gydgyfar-d etto yn nhrigfanau ein Tad? Ffarwel! 'Wele, mi a fyddaf gyda chwi ı wastadol' yn yr ysbryd. Gwenau'r nefoedd fyddo arnoch chwi oll yw veddi eich cyfaill a'ch brawd,—J. C. Gangooly."

Ar hynyna ynte gadawn Joguth, gyda dymuniad fod nawdd Duw iddo yn rth ac yn darian; a'r efengyl sydd mor anwyl ganddo, boed yn gysur ac ı ddiddanwch iddo ymhob amgylchiad, a boed llwyddiant ar ei holl lafur ıg ngwasanaeth y Pen a'r Blaenor mawr, ein Harglwydd Iesu Grist.

Abner.

PARKER AR ENW CRISTION.

R. Gol.—Yn y dernyn a ymddangosodd yn eich misolyn am fis Hydref weddaf, dan y *title* "Theodore Parker, ei olygiadau ar yr enw Cristion," ydych yn dywedyd, "Pa un ai darfu i Parker newid ei farn ar y matter, fod, fel y clywsom ddywedyd, cyn diwedd ei oes yn dewis cael ei alw rth yr enw *Theist* yn hytrach na'r enw *Cristion*, nid oes genym ni fodd i'w nderfynu." Gwn y rhoddwch le i mi brofi, os y gallaf, yr haeriad a haethum yng Nghapel-y-groes, yng nghynadledd y Cwrdd Blynyddol di-eddaf, sef fod Parker yn galw ei hun yn *Theist*, ac mewn canlyniad yn vrthod yr enw Cristion. Ai dyma'r geiriau a arferais yno ai peidio nis vn; ond rhywbeth i'r perwyl yna oeddwn yn fwriadu ddywedyd. Gyda n o eglurhad âf ymlaen yn awr at yr awdurdod oedd genyf i ddywedyd nny, sef geiriau Miss Cobbe, golygydd gwaith Parker, ynghyd ag amrywiol iau o'i waith oedd yn cael ei fritho, mor belled ag oeddwn i wedi ei ddar-n ar y pryd, ag awgrymiadau ac haeriadau, (oblegid nid oes nemawr o ofion ynddo o'r dechreu hyd etto), oll yn cyfeirio yr un ffordd i ddangos d Miss Cobbe yn iawn.

Ar tudal. xvi o'i rhagymadrodd, dywed Miss Cobbe fel hyn—"Gan yll ar y tir hwn o ymwybodolrwydd *(consciousness)* pregethodd yr athraw-th fawr o *theism*, daioni annherfynol Duw (*the absolute goodness of God*)." tudal. xxi dywed ymhellach fel hyn, "I'r grefydd hon, ar unwaith yn prydol a rhesymol, rhoddodd Parker yr enw *Theism*, enw yn gwrthdaro heistiaeth yn unig, ac yn cynnwys pob addolwr Duw, enw nad yw i'w eall fel yr hen ddeistiaeth, i arwyddo gwrthodiad Crist'nogrwydd, ond ei

chynnwysiad* mewn un grefydd fawr annherfynol (*in one great absolute religion*). Ymhellach etto dywed ar tud. xxxi, "Ymddangosodd yn dda, yn y moo hyn, i arddangos mewn rhyw fesur pa mor berffaith a chyfan oedd y nattu honno, yr hon ddarfu i'r dysgawdwr hwn o Theism ei dadblygu." Fell fe wêl y darllenydd fod Miss Cobbe, ai cywir neu anghywir, amser a dden gys, yn dywedyd mai yr enw y mae Parker ei hun yn ddewis fel y mwy cymmwys i'w syniadau crefyddol ef yw *Theism* neu Theistiaeth, nid Cristia Theism neu Theistiaeth Grist'nogol, ond Theism neu Theistiaeth yn unig ac felly y mae yn ymddangos i mi fod yr enw Cristion yn cael ei droi o neilldu, ac un arall o well yn cael ei ddewis yn ei le. Y mae'n ymddangc i mi yn canlyn yn anorchfygol mai Theist ac nid Cristion oed Parker yn dewis cael ei alw. Ond er mwyn cael gwybod a ydyw Mis Cobbe yn iawn yn yr hyn a ddywed, yr ysgrifenais atti i gael gwybod e hawdurdod dros yr haeriad uchod: ac mewn atteb derbyniais y llythy canlynol oddiwrthi, yr hwn a gyfieithaf mor agos ag y gallaf.

"Spezzia Italia, Hydref 15, 1863.

Anwyl Syr,—Yr wyf yn ddedwydd iawn i atteb y gofyniadau ynghylch Parker, ac yn dymuno arnoch i beidio gwneyd un esgusawd dros eu danfon i mi. Chwi gewch y mynegiadau mwyaf llawn ei fod yn mabwysiadu yr enw *Theism* i osod allan ei syniadau crefyddol yn ei "Theism, Atheism, a'i Popular Theology." Cyhoeddwyd y llyfr hwn gan Chapman rai blynyddau yn ol, a dios ei fod yn adnabyddus i chwi. Yr wyf yn bwriadu ei ail argraffu oddeutu'r 9fed cyfrol o'm cyfres, ond dewisais i roddi'r lle blaenaf i weithiau mwy eu gwerth. Yn y gyfrol hon y mae ef wedi unrywio (*identified*) y grefydd boblogaidd âg eithafion Calfiniaeth mor bell fel y bydd i ddarllenwyr Saesonig iawn-ffyddiog, wyf yn ofni, achwyn yn gyfiawn ar y llyfr fel gwatwarlun o'u cred. Y mae y rhan berthynol i *Theism*, modd bynag, gyda'r galluoccaf o'i ysgrifeniadau, a gwnant, yr wyf yn meddwl, foddloni partïon fy mod i yn hollol gyfiawn yn fy natganiadau o honynt. Y mae rhai o'i ganlynwyr yn America ymhlith yr anwylaf o'm cyfeillion personol i, ac y maent hwy oll ar bob achlusyr yn galw eu hunain yn Theistiaid yn unig. Darfu i ddau o honynt achosi rhyw ychydig o gynhwrf yn Berlin trwy beri i'r enw gael ei ysgrifenu fel crefydd eu mheibion ar lyfrau'r *Royal College*. Pa bryd bynag y mae Parker yn defnyddio'r gair Cristion mewn ystyr yn gosod allan ei olygiadau ef, chwi gewch mai yn ei ystyr boblogaidd foesol, cyfystyr a dyngarwch a thrugarogrwydd y mae. Yn ddiwinyddol (*theologically*) nid yw yn ymddangos ei fod wedi galw ei hunan yn Gristion am lawer o flynyddoedd.

Anwylaf Syr, yr eiddoch yn wirioneddol,
Frances Power Cobbe."

Felly fe wel y darllenydd fod Miss Cobbe yn sefyll at yr hyn a esgrifenodd Byddai y dystiolaeth uchod yn ddigon i'm cyfiawnhau i am ddim a ddywedais: ond ni chaiff y matter aros yn y fan hon; gan fod Miss Cobbe yn rhoddi ei hawdurdod i fynu yn ewyllysgar, ni a awn yn awr at y gair a'r dystiolaeth, at y "Theism Atheism, a'r Popular Theology," ac ar ol arllwys hwn ni a awn at ranau eraill o'r waith; ac y maent yn aml, aml iawn, ac yn edrych y ffordd; i fynu at Theistiaeth

* Yn hyn nid yw Miss Cobbe yn eithaf cywir, mor belled ag wyf fi wedi darllen a deall gwaith Parker. Nid yw ei Theism ef yn cynwys dim o Gristnogrwydd, ond yr hyn y mae ef yn weled yn gymwys; ac y mae yn gwneyd hyn â phob crefydd arall, Mahometaniaeth Buddhism, &c., gan adael ei gwaeledd ar ol.

solute Religion, crefydd natur (*natural religion*), tri enw yn arwyddo yr un peth; wr a phob crefydd arall. Nid oes dim perffeithrwydd yn un man ond yn natur, hen Destament, a dyn y Testament Newydd. Y mae yma, yn Theim, yn natur atguddiadau fresh bob dydd, ysprydoliaeth yn cael ei rhoi nawr fel cynt; dysg- dwyr yn awr yn llawer mwy goleu a gwybodus na fu erioed yn y byd o'r blaen, nad yw y dynion ysprydoledig gynt ond cysgod at y rhai hyn: Moses a'r proph- di, Crist a'i apostolion, beth yw y rhai'n at apostolion a phrophwydi eglwys y fodol! Yr wyf yn tybied y caiff y darllenydd weled cyn terfynu nad wyf, wrth ywedyd hyn, ddim yn arfer gormodiaith. Ond yn awr at "Theism, Atheism, a'r pular Theology" yn gyntaf.

Er mai dyna'r *title*, nid dyma'r drefn y mae ef yn gymeryd wrth eu trin. Y mae nddo yn gyntaf ddwy bregeth ar Atheistiaeth; yn ail ar y grefydd boblogaidd, *pular theology;* ac yn olaf ar Theism. Ni a gymerwn ei drefn ef, ac a awn yn ntaf at

Atheistiaeth. Nid oes neb ag sydd wedi darllen gyda'r sylw lleiaf ei ddwy egeth ar Atheistiaeth, a all ameu am fynyd pa un ai Atheist oedd Parker ai peidio. mae yn tynu y fath bictiwr pruddaidd, tywyll fel y fagddu, o honi, fel y mae'n r mai nid Atheist oedd, canad beth oedd. "Yn awr," ebe fe, wedi desgrifio y efn a'r rheoleidd-dra sydd trwy yr holl greadigaeth, "yn awr, y mae'n rhaid i'r heist haeru fod yr holl drefn hon yn y gyfundraith heulaidd, wedi ei dwyn oddi- ngylch trwy ymgynulliad damweiniol sylwedd, ac nad yw yn arddangos un meddwl, n plan, dim bwriad yn y bydyssawd. Y mae hyn yn wrthyn. Gallai dyn cystal ddu y ffaith fod cyfraith i'r gyfynraith heulaidd, neu fodolaeth yr haul, neu ei lolaeth ei hunan, a gwadu fod y ffeithiau hyn wedi eu cydraddoli yn y modd yma, arddangos meddwl, yn dangos cynllun, ac yn gwasanaethu pwrpas wedi ei amcanu agllaw." "Yr un awydd i estyn fy hunan, ebe fe drachefn, sydd yn fy ngwthio i ned rhagof yn fyw gan anfarwoldeb, i uno fy hun etto â'm hanwyliaid, ac â dynol- w, dros dragwyddol fywyd." Ond y mae fy Atheist yn sefyll rhyngof ag anfarwol- b. "Angau yw'r diwedd," medd ef. "Byd yw hwn heb Dduw; yma heb ar ol ia; corph heb enaid; daear heb nefoedd. Bydd farw, a dychwel i'th lwch." * * Y mae angeu, trueni, a gormes yn cyfarfod ag ef ymhob man; ac er ei gyssur y ae ganddo ei gred—corph heb enaid, daear heb nefoedd, byd heb Dduw." * * Y mae'n gweled fod balchder yn gwthio'r truenus i'r domen, ac yn cael ei an- ddeddu am hynny, fod trawsarglwyddi yn sathru cenhedlaethau dan eu traed, tra ae rhyw wladgárwr yn dyhoeni mewn angof a marwolaeth; nid yw'n canfod un pphwydoliaeth o bethau gwell. Pa fodd y gall mewn daear heb un nefoedd, corph b un enaid, a byd heb un Duw." Nid oes neb debygaf, ar ol darllen cymmaint a na o waith Parker a all feddwl am eiliad ei fod ef yn Atheist. Felly ni a adawn y in yna ac a awn at

Yr ail ran, sef y Grefydd Boblogaidd, "The Popular Theology." Ac os pruddaidd ld ei bictiwr o Atheistiaeth, gwaeth byth yma. A chofier fod athrawiaeth Crist ei n, yn ol ei farn ef, weithiau yn dyfod dan ei ergydion, ac yn cael rhan yn ei ddar- du. Nid yw'n cofleidio'r grefydd boblogaidd yn sier. Gyda'i Duw meidrol a rtiol, ei diafol, ei phoenau tragywyddol, y mae'n waeth yn ei olwg nag Atheist- th ei hun. Ond caiff siarad drosto ei hun. Ar tudal. 72, wedi iddo baentio'r fydd boblogaidd yn ei lliw duaf, y mae'n dywedyd—"Pa un, meddaf, yw'r aethaf—dywedyd gyda'r Atheist, 'Nid oes un Duw,' y mae pob meddylddrych am n yn fyr o wirioledd (*actuality*), neu baentio Achos, Meddwl, Rhagluniaeth yr holl hwn fel diafol erchyll—a'r bydyssawd ei hun yn uffern ffiaidd ac anghymmod- n? Ond rhaid i mi ddywedyd, fel yr wyf yn cashau Atheistiaeth, fy mod hefyd cashau yr athrawiaeth arall hon, yr hon sydd yn gosod allan grefydd yn artaith, arwoldeb yn felldith, a Duw yn ellyll. * * tud. 73." Pa un—Atheistiaeth dduwinyddiaeth—sydd yn rhoddi y pictiwr harddaf? Byddai Atheistiaeth, hyd oed diddymiad yr enaid, yn ymwared rhag y fath Dduw a hwnna; oddiwrth y ddiwedd, "sef poenau tragywyddol." Ni ddifynaf ragor dan y pen hwn etto na nyn bychan ar tud. 82. "Y mae Atheistiaeth Comte a Feuerbach yn uwch a ll na'r meddylddrych duwinyddol am Dduw, fel ei gosodir allan gan Jonathan

Edwards, pencampwr mawr duwinyddiaeth Lloegr Newydd." Nid oes neb bellach ag un amheuaeth ar ei feddwl pa un a oedd Parker yn perthyn i'r grefydd boblogaidd. Na, nis gall. Y mae'n sicr nad oedd yn cofleidio hon, ac amhriodol iawn fyddai ei alw yn Galfin, neu ryw enw arall perthynol i un o ganghenau y grefydd boblogaidd. Wel, i bwy y mae ef yn perthyn ynte? Beth ei enw a pheth ei gred? Ai Cristion yw? Ai canlynwr Iesu y Crist yw ef? Ni a gawn chwilio yn gyntaf beth yw ei feddwl am Grist; yn ail am y Bibl, y ddau Destament; ei ysprydoliaeth; am ddatguddiad dwyfol; ei athrawiaethau; ei wyrthiau; yr adgyfodiad. Yn drydydd, beth yw ei olygiadau crefyddol ef ei hun; ei ddau Destament; ysprydoliaeth; anfarwoldeb, beth ei sail; yn fyr beth ei grefydd, a pheth ei henw yn ol ei ddewisiad ef ei hun. Ond cyn dechreu, goddefer i mi ddywedyd etto unwaith nad yw Parker ddim yn ystyried y cwbl yn y Bibl ddim yn ddrwg; nac ydyw, eithr y mae'n cael llawer ynddo—llawer yn holl grefyddau'r byd ag sydd yn dda. Nid yw Iuddewaeth, Cristnogrwydd, Pabyddiaeth, Mahometaniaeth, Budhiaeth, nac un aeth arall ddim heb eu gwersi iddo; hyd yn oed atheistiaeth, y mae yma ryw beth i Parker; y mae'r Atheist yn sefyll dros hawl dyn i arfer ei feddwl, ac y mae hynny yn dda; ond yng Nghrist y mae'n cael fwyaf o neb; ac y mae ganddo rai dywediadau a syniadau ardderchog am Iesu. Wedi dywedyd cymaint a hynna, rhag cael fy ngham-ddeall ar fater o gymaint pwys, âf ymlaen yn awr i chwilio a ydyw Crist yn awdurdod yng ngolwg Parker.

I. Beth yw ei feddwl am Grist. Cofied y darllenydd mai at y gyfrol ar "Theism, Atheism, a'r Popular Theology" y bydd y cyfeiriadau, ond lle byddo cyfrolau eraill yn cael eu nhodi. Yn awr os y cawn fod Crist, yn ol barn Parker, yn dysgu athrawiaethau gwaeth nag Atheistiaeth, ac mor wrthun ar grefydd boblogaidd; os y cawn fod Crist, yn ol ei dyb ef, yn gamsyniol, cyfeiliornus, ac fod hyd yn oed pechodau yn perthyn iddo; os y cawn fod ei wyrthiau oll yn ffugiol, ac fod coleddwyr y grefydd newydd, yr *Absolute Religion*, crefydd natur, neu Theism, yn llawer mwy gwybodus na'r Iesu, a'i bod yn ddyledswydd ar y Theistiad hyn i edrych *ymlaen* ac nid *yn ol* am arweinyddion; yna yn sicr nid yw Parker yn perthyn dim mwy i Grist, nag i Atheistiaeth a'r grefydd boblogaidd. At y gair a'r dystiolaeth ynte i gael gweled sut y mae'n bod. Tud. 55 dywed fel hyn, "Nid wyf yn bwriadu dywedyd fy mod yn meddwl fod gan yr Iesu amgyffrediad trwyadl a dattodiadol o'r oll sydd yn gynwysedig yn ei eiriau, ac na ddarfu iddo ofyn pethau eraill anghysson a hynny, yn unig ddarfod iddo wneyd cariad at Ddduw a dyn y peth penaf yn ei addysg grefyddol. Yr wyf yn gwahaniaethu rhwng ei dduwinyddiaeth a'i grefydd. Ymddengys fod yn ei dduwinyddiaeth ef lawer o ddychymygion Iuddewig, hollol anniffynadwy yn ein dyddiau ni, er yn cael eu derbyn yn gyffredin gan ddynion call yn ei amser ef. Yn ei grefydd yr oedd ef yn rhagori ar ei oes. Os oes un o'r efengylau, neu os yw yr oll o honynt yn gosod allan ei feddyliau yn gywir, yna yr oedd ei dduwinyddiaeth yn cynwys cymysgedd mawr o gyfeiliornad, yr hyn yn wir sydd amlwg i un dyn a ddarlleno yr hanesion yn ddiragfarn." Tud. 167, "Y mae y tad marwol [fyddo wedi colli ei blentyn afradlon trwy farwolaeth] yn troi at grefydd am gyssur. Y mae duwinyddiaeth yn dywedyd wrtho am y tân nad yw byth yn diffodd, y pryf nad yw'n marw, arteithiau ei blentyn—y mwg yn esgyn i fynu yn oes oesoedd. Y mae ei Fibl yn dyfod yn artaith;—yn y llawer trigfanau ei nefoedd nid yw yn gwybod am un i'r afradlon anedifeiriol yr hwn y mae angau yn yrru oddiwrth y cibau a'r moch. Y mae yn edrych i fynu ar ol Duw; y mae brenhin erchyll yn gwneuthur i'r ddaear grynu rhag ei ŵg—digllon wrth y drygionus bob dydd, ac yn cadw ei ddigofaint dros byth; nid oes un Tad. Y mae'n troi at y "Gwr gofidus a chynnefin a dolur," gan ofyn, "A rydd Mab Mair ddim cymmorth i mi mewn perygl am fy eiddo? Oblegid aeth eleddyf trwy fy enaid innau hefyd." Ond y mae'r Croeshoeliedig yn taranu, "Ewch oddiwrthyf, chwi rai melldigedig, i'r tân tragywyddol, a barotowyd i ddiafol ac i'w angylion;" ac y mae holl lu y Cristnogion duwinyddol yn atteb—"I gospedigaeth dragywyddol yr aiff! Amen!" Iddo ef nid oes un Crist—ac ni fydd byth. Y mae crefydd yn artaith, anfarwoldeb yn felldith, a Duw yn ddiafol! "A oes un fam i'm plentyn," yw ei gri. Y mae bys Duwinyddiaeth, gan guddio'r seren foreu, yn pwyntio i lawr i uffern, ac y mae llais y Nos a'i hanadl oer yn sibrwd "Dros

th." Gwel y darllenydd oddiwrth y dyfyniad uchod, fod Parker yn unoli y efydd boblogaidd a chrefydd Mab Mair â'u gilydd, mor belled ag y mae poenau gywyddol yr afradlon anedifeiriol yn myned, ai cam neu gymwys ydyw yn hyn, d oes a fynom ni a hynny yn bresenol. Wel, beth am yr athrawiaeth hon y mae'n iodoli i Fab Mair a'r grefydd boblogaidd? Ar yr un tudalen y mae yn ychwanegu, Wrth y bedd y mae'r Atheist a'r Cristion duwinyddol yn edrych yngwynebau eu ydd; y mae un wedi rhoddi ei ferch i fynu i ddiddymiant—tad dim ydyw; y ae'r llall wedi claddu ei fab mewn poenau tragywyddol—tad ysglyfaeth y diafol! gyssur sydd gan y naill oddiwrth ddim, y llall oddiwrth uffern? Y mae'r nattur ynol yn dywedyd wrth y ddau—"Celwydd yw." Celwydd yw Atheistiaeth yma; lwydd arall yw'r grefydd boblogaidd draw." Felly nis gellir gochelyd y casgliad d Mab Mair wedi dysgu celwydd, yn ol barn Parker. A all ef mwyach broffesu efydd hwn, proffesu celwydd; a all ef broffesu ei hun yn ddisgybl mwy i'r Iesu wyddog? O na, y mae'n gwrthod y grefydd boblogaidd am ei bod yn cynwys rawiaethau o'r fath, gwaeth nag Atheistiaeth ei hun yn ei olwg ef; a dios ei fod gwrthod, gyda'r un dirmyg, yr un athrawiaeth yn Mab Mair hefyd. Ond ymlaen difyniadau. Ar yr un tudalen a'r carlynol y mae Parker yn myned rhagddo— Y mae boreu tragwyddol yn canlyn y nos; y mae bwa'r cyfamod yn gorchuddio gwyddau pob cwmmwl sy'n wylo ei ddagrau ymaith i fod yn flodau ar y ddaear a erlau ar y môr; y mae Bywyd yn cyfodi o'r bedd, ni all yr enaid gael ei ddal gan nawd sy'n ei lyfetheiro. Y mae'r grefydd annherfynol [Absolute Religion, Theism, u grefydd natur] yn gosod y dduwinyddiaeth erchyll yma i orphwys am byth, naiff y Fam anfeidrol geryddu mewn trugaredd, gwella a bendithio hyd yn oed yr adlon, yr hwn ddarfu i angeu ei ddâl yn anedifeiriol. Cariad a fwr allan ofn." d crefydd Iesu ond yr *Absolute Religion, Theism*, neu grefydd natur sydd yn neuthur hyn; y Fam anfeidrol, enw anwyl gan Parker am Dduw. Disgybl pwy Parker yn awr. Ond y mae rhagor etto yn ol.

Parker's Works by Miss Cobbe, Trubner & Co., London. tudal. 196, Cyf. I. Diameu yr oedd ganddo ef, sef Crist, ei gyfeiliornadau, ei ffolinebau, ei feiau, ac l yn oed bechodau." Tud. 207, "Bydd i'r cyfeiliornadau a ddysgodd yr Iesu thio a marw hefyd." Tud. 241, "Cofiwch, er fod meddyliau eraill wedi gweled hellach, ac wedi ychwanegu gwirioneddau newyddion at athrawiaethau ei grefydd (Iesu), er hynny ni ddarfu i'r calonau cyfoethoccaf ddim teimlo'n ddyfnach." d. 168, "Ond etto darfu iddo ef (Iesu) gamsynied ei hun am y gwaredwr gwyrth- ac amhossibl hwnw ei genedl yr hwn yr oedd y bobl yn ddisgwyl am dano." d. 248, "Ar y llaw arall, y mae yr hwn sydd yn derbyn rhyfeddodau anferth (*mon- ous*) yr efengyl yn credu gyda llawenydd fod gan Iesu awdurdod ddwyfol dros gym- l ffurfiau a damnio pawb ond y bedyddiedig. * * Nid yw'n bossibl am hir ser i wneuthur pethau difrifol o ffiloreg heb wneuthur ffiloreg o bethau difrifol." l. 250, "Y mae gan y Crist mewnol, yr hwn yn unig sydd yn aros yn dragywydd, er o bethau i ddywedyd, y rhai ni ddywedodd y Bibl erioed 'mo honynt, llawer wyddai y Crist hanesyddol ddim am danynt." Tud. 309, "Y mae'n rhaid i bob fod yn Grist iddo ei hunan, neu nid yw yn Gristion." Cyf. II. o'r un gwaith, . 156, "Gwelais, fel yr oeddwn i yn tybied, efengyl Duw'r cariad wedi ei hys- enu ym mywyd yr ymlysgiad yma (y neidr) tuag at yr hon y mae gan Grist'nog- y fath ddigasedd chwedlaidd, ond yr hon y mae y Duw daionus yn fendithio â en newydd disglaer bob blwyddyn, wedi ei ysgrifenu yn fwy eglur nag allasai o Nazareth ddywedyd y chwedl. Nid rhyfedd! y Duw anwyl oedd wedi ifenu ei Efengyl ar y rhol hon." Cyf. III. tud. 13, "Nid rhyfedd ynte i ddyn- ddysgu yn glau i anrhydeddu'r Iesu fel Duw, ac wedi hynny fel Duw ei hun. Y chwedlau apostolaidd ac eraill yn siarad am ei enedigaeth ddwyfol, ei allu rhy- ol, yn iachau y claf, y parlys a'r cloff, y byddar a'r mud, a'r dall, yn creu bara, roi'r dwfr yn wîn, ac yn erchi i ddiaflaid ufydd ddôd a myned; gallu a gyfododd arw. Y maent yn dywedyd i nattur deimlo drosto, ac ar ei farwolaeth i'r haul mdeimladwy iawn sefyll ar hanner dydd, a chadw'r dydd yn ol am dair awr; i giau gael eu rhwygo, a beddau agored roddi i fynu eu mheirw sanctaidd, y rhai a asant unwaith etto ar hyd ystrydoedd Sion, blaenffrwyth y rhai a hunasant; y

maent yn dywedyd wrthym pa fodd y darfu i angau siomedig roddi i fynu ei ysglyfaeth, ac fel yspryd i'r Iesu dychweledig, mewn cnawd a dull yr un, fyned trwy y drysau a hwythau ynghauad, ac iddo mewn dull corphorol gael ei gymmeryd i fynu i'r nefoedd yngwydd dynion. Creded dynion o'r pethau hyn fel y mynont. I mi nid ydynt yn wirionedd a ffaith, ond arwydd-luniau ffugiol a phrydyddiaeth." Tud. 51, "Ni fydd hi (yr eglwys Gristnogol, neu yn hytrach yr eglwys Theistiaidd), ni fydd hi mewn diffyg o un gwirionedd newydd gan faeddio difynu yn unig, ac ni raid iddi ymlusgo'u lledradaidd y tu cefn i eiriau yspryddoledig heu seintiau fel ei hunig ymddiffynfa, oblegid bydd ganddi eiriau yr un mor wirioneddol yspryddoledig yn diferu o enau auraidd seintiau a phrophwydi yn awr. Am arweinyddion nid edrych yn ôl ond ymlaen; hi a chwytha wreichion gwanaidd cyntaf y tân ardderchog hwnw newydd ei enynnu o'r nef; ac nid eu mogi hwynt yn lludw tân sydd wedi diffodd er ys talm; nid ei boddi hwynt â dwfr sanctaidd o'r Iorddonen neu'r Nile." Tud. 125, "Wel, mewn cydmariaeth ag ymgais greddfol (*instinctive aspiration)* ein nhattur y mae gorchestion uchelaf Leibnitz neu Iesu yn ymddangos yn isel a bach." Tud. 130, "Nid yw yspryddoliaeth wyrthiol yn bodoli ond yn unig fel breuddwyd neu hocced; dychymyg yr hunan-dwylledig, neu ffug-honiad y twyllwyr." Tud. 148, "Y mae gan y dyn sydd a holl fanteision yr amserau hyn—cyflymder mudiad o le i le, cyfryngau cyhoeddi ei feddyliau mewn print a'i gyflym-daenu trwy newyddiaduron trwy'r wlad, rhyddid i siarad a gweithredu, dadblygiad (*development)* y bobl, eu deall cyflym i werthfawrogi a chymwyso gwirionedd. Y mae gan hwn lawer mwy o allu i fendithio'r byd mewn ystyr grefyddol nag y mae'r efengylau yn briodoli i Iesu o Nazareth gyda'i holl wyrthiau! Beth oedd cerdded ar y dwfr at drafaelu mewn *railway car;* beth oedd "siarad a thafodau" at argraphu eich meddyliau mewn newyddiadur helaeth-wasgaredig; a pheth oedd yr holl wyrthiau ffugiol eraill i gyd at ymgyffyrddiad cyflym meddwl a meddwl myfyrgar." Un dyfyniad yn rhagor, ac yna i ddiweddu'r llythyr maith hwn, gan obeithio y cawn gyfleu etto i orphen ein prawf. *Bread cast on the waters;* tud. 49. "Yn y Testament Newydd, nid oes gan y Duw yr hwn y mae'r Iesu yn osod o flaen dynolryw ddim eariad at y drygionus; nid oes dim rhagddarbod ar eu cyfer hwynt; yn y farn olaf y mae yn eu danfon hwynt oll i uffern diwaelod, diddiwedd, heb un gobaith; nid yw eu pryf yn marw, na'u tân yn diffodd: nid oes un Lazarus o fonwes Abraham a rydd byth i Dives un diferyn o ddwfr i oeri ei dafod pan yn cael ei boeni yn fflam honno. Y mae'r Iesu yn siarad am Dduw, am y Diafol hefyd: am nefoedd a'i thragwyddol wynfyd yn aros pob dyn cyfiawn, ac am y poenau tragywyddol nid llai agored ac yn aros pob un a fyddo marw yn anedifeiriol." Dyna ddigon o ddifyniadau i brofi'r gosodiadau dan y pen cyntaf, sef meddwl Parker am Grist. Gallaswn roddi llawer, llawer iawn yn rhagor. Beth yn awr, garedig ddarllenydd, yw dy farn di? A all Parker fod yn ddisgybl i Grist? Aros dippyn; ti gei ragor yn y nesaf.

Owen Evans.

DIWYDRWYDD.

Ddarllenwyr, a ydych chwi wedi sylwi erioed pwy ydyw ceintachwyr cymdeithas? Dyna nhwy yn wastad, y rhai ydynt mewn amgylchiadau o'r fath nad oes dim rhaid wedi ei osod arnynt i fod yn ddiwyd, er mwyn ennill eu bara a chaws. Dynion nad oes ganddynt ond ychydig neu ddim i'w wneuthur, dyna'r dynion yn wastad sydd yn anesmwyth ac yn anfoddlon i'w cyflwr. Nid oes gan y diwyd ddim amser i hyny. Y mae amser yn teithio yn gyflym i'r llafurwyr—rhagorfraint y llafuriwr ydyw hwn. Y mae'r Nefoedd wedi amcanu i bawb i weithio, pob un yn ei gylch priodol ei hun—un â'i ddwylaw a'r llall â'i ymmhennydd. Nid oes dim dyn nac un creadur byw nad oes ganddo ei offerynau at weithio. Y mae gan y còryn ei beiriant nyddu yn ei benglog. Nid yw dyn byth yn ddedwydd ond pan byddo wrth ryw orchwyl, canys y mae diogi yn dwyn camwedd a chamwedd yn dwyn

echod. Pwy ynte na ddymunai ochelyd diogi? Y mae yn beth dymunol ael ysbryd diwyd ymhob un, y mae yn neillduol felly mewn menyw. Y nae bywyd dyn mor ansier, y mae ystrangciau ffawd mor gyfnewidiol fel y nae'r dyn sydd yn cynmeryd i'w fynwes gymmhares, yr hon sydd yn amddi-ad o'r rhinwedd gwerthfawr hwn, a dywedyd y goreu, yn peryglu ei hunan n ofnadwy. Etto pa faint sydd yn cael eu codi yn hollol anwybodus o nghenion cyffredin bywyd, a'r ffordd i'w diwallu? Pa nifer sydd yn cael u codi i fyny i feddwl y byddai yn ddiraddiad iddynt i osod eu troed ar awr y gegin, neu i gyflawni drostynt eu hunain unrhyw orchwyl angen-heidiol! Chwi dadau a mamau da, a fynech chwi ddwyn i fyny blant da? hoffech chwi weled eich mab yn fendith i'w wraig, neu eich merch yn endith i'w gwr? Un o'r anhebgorion at hyny yw diwydrwydd. Dysgwch wynt i ymarfer a hyny yn ifangc, a chwi a gewch weled ymhen amser eich od wedi plannu a meithrin blodeuyn a dry allan yn werthfawr ynddo ei unan ac yn peraroglu'r wlad o'i amgylch. F. H.

ATEBIAD I MR. R. P. B., GER LLANBOIDY.

[AE'R mis presenol yn prysuro tua'i derfyn, ac amser ymddangosiad yr MOFYNYDD am Rhagfyr yn agoshau, rhaid i minau frysio i ysgrifenu, os allaf, esboniad Ysgrythyrol i chwi, Mr. R. P. B., ar Ioan viii. 44.

Yr ydych yn cymeryd yn ganiataol fy ngallu a'm parodrwydd i gyflawni'r waith; yr ydwyf finau yn cymeryd yn ganiataol mae gorchwyl hawdd yw oddi boddlonrwydd i chwithau, ond efallai fod pob un o honom yn cam-nied.

Y rheswm pam yr arferai ein Harglwydd iaith mor erwin wrth siarad â'r ddewon oedd eu rhagfarn yn ei erbyn of a'i athrawiaeth, a'u penderfyniad w osod i farwolaeth y cyfle cyntaf. Mae'n wir nad oedd yr Iesu yn Fessia fath ag a ddisgwyliasai yr Iuddewon, ond nis gallasai ef oddiwrth hyny. haid oedd i'r Iesu weithio gwaith yr hwn a'i hanfonodd yn hytrach na eisio eu boddloni hwy—ufuddhau i Dduw yn hytrach nag i ddynion. an bwys eu siomedigaeth ynddo, llyfelent gyhuddiadau celwyddog yn ei byn er mwyn cwmpasu ei farwolaeth: meddai'r Iesu, 'Eithr yr ydych wi yn ceisio fy lladd i, dyn a ddywedodd i chwi y gwirionedd, yr hwn a ywais i gan Dduw, hyn ni wnaeth Abraham." Felly, yn hytrach na bod blant i Abraham, fel yr ymffrostiai yr Iuddewon eu bod, ac yn hytrach bod yn blant i Dduw fel yr honent hefyd, dywedai'r Iesu wrthynt, erwydd eu hyspryd celwyddog a llofruddiog, mai plant y *diafol* oeddent. ant i Dduw ac i Abraham, mae'n wir, mewn ystyr greadigol a naturiol, d plant i'r *diafol* mewn ystyr foesol, am eu bod yn llawn drygioni. "O'ch l diafol yr ydych chwi, a thrachwantau eich tad a fynwch chwi eu neuthur."

"Lleiddiad dyn oedd efe o'r dechreuad." Y mae'r Iesu yma, yn de-gol, yn cyfeirio at lofruddiad Abel gan ei frawd Cain, yn nechreuad y nod dynol, i'r hon weithred, fel y tybid, y cymhellwyd ef gan y *diafol*, dwr pob drwg yn y byd moesol a naturiol." Ni safodd yn y gwirionedd, egid nid oes gwirionedd ynddo ef," hyny yw, mae gwirionedd yn groes natur. Er mwyn synwyr yn y geiriau a nerth yn yr ymresymiad, yr f yn credu mai gwell yw darllen y rhan olaf o'r adnod fel y canlyn—"Pan

mae un yn dywedyd celwydd y mae yn dywedyd yn ol ei drâs, oblegid ei dad hefyd sydd yn gelwyddog." Fel y tad, felly'r mab. Fel y *diafol*, felly'r Iuddewon yn gelwyddog a llofruddiog.

O barthed i'r pwnc mawr o *bersonoliaeth* y diafol yr wyf yn gobeithio y gwelwch hyn yn ddigon, sef fod yr Iuddewon rywbryd, yn debygol genyf fi, yn amser eu caethiwed yn Babilon, yng nghymdeithas y Persiaid a'r Caldeaid, wedi cofleidio'r dyb fod drygau moesol a naturiol yn cael eu hachosi gan ryw *fod maleisddrwg*. Yn y dwyrain, yn foreu iawn, credid mewn dwy egwyddor fawr lywodraethol, y naill yn *dda* a'r llall yn *ddrwg*. Bernid fod y dyb hon yn angenrheidiol er cyfrif am y *drwg* a'r *da* sydd yn gymysgedig yn y byd. Pa bryd y bodolwyd ac y personolwyd yr egwyddor ddrwg, ac y bedyddiwyd hi yn *ddiafol* neu *satan* nis gwn; pa bryd y daeth yn hwdwg corniog, palfog, cynffonog, blewog, ewinog, &c. nis gwn; paham y mae'r croenwyniaid yn paentio'r diafol yn *ddu*, a'r croendduaid yn ei baentio yn *wyn* nis gwn, os nid er mwyn *insulto* eu gilydd. Felly Mr. R.P.B. yr wyf fi yn cael fy nhueddu i gredu mai *egwyddor ddrwg* y philosophi ddwyreiniol wedi ei phersonoli, a rhoddi iddi gyrnau a charnau, a phob hagrwch cyfatebol, yw'r *diafol* neu *satan*, ac nid gwirionedd datguddiedig.

Gwir y llefarir gan Grist a'r Apostolion am y diafol fel *bod*, ond pa un a oeddent yn credu yn ei *bersonoliaeth*, neu ynte ond yn unig yn mabwysiadu iaith y wlad, ni chymeraf arnaf, am nas gallaf, benderfynu. Mae'n ymddangos i mi fod y syniadau goruchel a ddysgir am Dduw yn yr Hen Destament, ac yn neillduol yn y Testament Newydd, yn anghyson â'r dyb gyffredin, gynt a phresenol, o fodoliaeth diafol *personol*. Gan obeithio y gwna y sylwadau uchod eich boddloni y gorphwys yr eiddoch, &c.

Pantydefaid, Tach. 20, 1863. THO. THOMAS.

CYFRAITH CARIAD.

YR oedd y diweddar William Ladd yn arfer adrodd yr ystori ganlynol gydag archwaeth neillduol:—"Yr oedd genyf," meddai efe, "grop hyfryd o wenith heb fod ymhell iawn oddiwrth y tŷ. Ond ganad pryd yr elwn heibio iddo, yr oeddwn yn sicr o weled defaid fy nghymmydog Pulsifer yno yn ei ganol, yn distrywio fy holl obeithion. Defaid oeddynt o ryw deneu, coes-hir, ac yr oeddynt mor fywiog a chwn hela. Gallent neidio dros y clawdd uwchaf, nid oedd dim un math o gauad allai eu cadw allan. Achwynais wrth Pulsifer am danynt, danfonais amryw rybuddion ato, ond oll yn ofer. Cadwai hwynt allan ddiwrnod neu ddau feallai, ond yr oedd coesau y defaid mor hired, a'm llafur innau ychydig yn fwy temtiol na'r borfa oeddynt hwy ynddo. Aethum heibio drachefn, yr oedd y defaid yn yr un fan. Cyffrowyd fy natur, a dywedais wrth fy ngweision am yru y cŵn ar eu hol, ac os na wnai hyny y tro, y buaswn yn eu talu am saethu'r defaid.

Aethum i ffwrdd mewn natur ddrwg ofnadwy, canys nid oeddwn gymmaint o ddyn heddwch y pryd hwnw ag yn awr, yn wir yr oeddwn yn teimlo yn llythyrenol yn llawn o ysbryd ymladd bob tamaid. Ar unwaith fel mellden, fflachiodd goleuni arnaf, a gofynais i mi fy hunan, 'Oni fyddai yn dda i chwi i dreio yn eich ymddygiad eich hunan yr egwyddor heddwch y soniwch gymmaint wrth ereill am dani!' Meddyliais drachefn, a thrachefn, a ffurfiais i mi fy hun y ffordd oreu i'w dilyn.

Dranoeth aethum at y cymmydog Pulsifer. Yr oedd yn tori coed wrth y rws. 'Boreu da, gymmydog.' Dim atteb. 'Boreu da,' meddwn i rachefn. Gwnaeth math o ròch fel mochyn, heb edrych i fyny. 'Rwy'n od' meddwn i wrtho, 'i siarad a chwi ynghylch y defaid.' Ar hyn taflodd bilwg o'i law, a dywedodd yn y llais mwyaf digllawn, 'Nawr, cymmydog, êt ydych chwi onid e, yn dywedyd wrth eich bobl am ladd fy nefaid i? Clywais am hyny—dyn cyfoethog fel chwi yn myned i ladd defaid dyn lawd!'

'Roedd bai arna i, gymmydog,' meddwn i, 'ond ni wnaiff hi ddim o'r tro i dael eich defaid chwi i fwyta'r gwenith i gyd, am hyny daethum i ddy-edyd wrthych fy mod yn foddlon i gymmeryd eich defaid i'r tir pori, at fy efaid fy hunan, ac ar ol y cynhauaf cewch nhwy i gyd yn ol; ac os bydd n ar goll cewch ddewis un yn ei lle o blith fy holl ddefaid i.' Edrychai 'ulsifer ar hyn fel pe byddai wedi dyrysu, ni wyddai beth i atteb. O'r iwedd, gyda chryn dipyn o attal, dywedodd, 'Nawr, Sowcier, a ydych hwi'n ddifrifol?' 'Ydwyf yn sier,' meddwn innau, 'canys y mae yn well i ni wrth bob reswm i gadw eich defaid chwi ar borfa nag ar lafur; oblegid id oes modd eu cau nhwy allan?'

Wedi munyd o ddistawrwydd, 'Ni chaiff y defaid flino dim rhagor arnoch nwi,' meddai Pulsifer, 'Mi a'u llyffetheiriaf hwynt i gyd. Ond cofiwch yn, pan bo dyn yn siarad am saethu, gallaf finnau saethu hefyd; a phan y yddont yn fwyn ac yn gymmydogol, gallaf finnau fod yn yr un modd.' i threspassodd y defaid ddim byth wedi'n. 'Ac fy nghyfeillion anwyl,' eddai, gan gyfarch ei wrandawyr, 'cofiwch pan y byddoch yn siarad am weidio eich cymmydogion, eu bod hwythau yn siarad am eich niweidio nwi. Pan byddo teyrnasoedd yn bygwth ymladd, y mae teyrnasoedd ereill n barod hefyd. Cariad a genhedla gariad, dymuniad am fod mewn eddwch a'ch ceidw mewn heddwch. Nis gellwch orchfygu drygioni ond yn nig a daioni. Nid oes ffordd arall."

NERTH CARIAD.

ID yw dynion yn gwybod fawr beth yw eu colled oherwydd dangos ysbryd rug ac anghymmodlawn. Caredigrwydd yw'r egwyddor a dynera'r galon, a wna gyfeillion o bawb, hyd yn oed o'r rhai hyny a fyddo'n digwydd d yn elyniaethus i ni. Llyma chwedl er enghraifft:—Un tro digwyddodd ffyl grwydro i'r heol, a dododd cymmydog ef yn y ffald. Cyfarfu a'r rchenog heb fod yn hir, a dywedodd wrtho beth a wnaeth, gan ychwanegu, Os byth y gwelaf yn yr heol etto, gwnaf yr un peth." "Gymmydog," ebai'r llall, "nid oes dim amser maith er pan y gwelais eich gwartheg wi ar y tir acw *(gan bwyntio a'i fys at ei gae ei hunan gerllaw.)* Danfonais ynt allan a ceuais hwynt yn eich clôs chwi.—Gwnaf yr un peth etto!" rawodd yr atteb ar y man iawn, rhyddhaodd y dyn y ceffyl o'r ffald, a lodd y dyledion ei hunan.—*Allan o'r "News of the World" am wrth* 5, 1854.

FYDD.—Ffydd yw'r term trwy yr hwn y gosodwn allan ein hymbwys personol ar uw personol. Pan y gwed dyn wrthym nad oes genym, pe tynid y Beibl ymaith, yn y byd i'n ffydd i orphwys arni, nid yw ond addef nad oes ganddo ef ffydd ioneddol ar ei helw. CHARLES VOYSEY.

DOETHINEB Y CREAWDWR.

"Rhyfeddol mor gywraint yw gwneuthuriad dyn ac anifail; er maint o bibellau, a gwythi, a chymmalau sydd ynddynt, heb un diswydd nac afreidiol, ond pob un yn cynnorthwyo'r naill y llall. Y mae'r haul yn cadw ei dymhorau yn y modd buddiolaf i'r byd: pettai'r lamp nefol hwn yn sefyll ynghanol y ffurfafen, neu yn troi yn oestadol uwchben, ac ar draws canol y ddaear yn llin y cyhydedd, byddai'r naill ran o'r ddaear yn anffrwythlon gan boethder, a'r llall yn anghyfanneddol gan dywyllwch ac oerder; am fod crwmmach *(sphericity, rotundity)* y ddaear yn bwrw cysgod, fel na thywynno'r haul arni i gŷd ar unwaith. Am hynny ymsymmud yr haul i amgylchynu'r gogledd, nes aeddfedu ffrwythau'r tir tu yma i'r byd; ac yna, gan adael i ni ddigonedd o luniaeth nes y delo eilwaith, cilia oddiwrthym ni, a gwna yr un gymmwynas o amgylch y dehau. Yn y cyfamser, nid yw'r gauaf anfuddiol i ni, gan oeri heintiau, a gostegu pryfed a gwybed, a chaledu dyn ac anifail, a'u gwneuthur yn iach ac yn gryfach. Gwelir y gwlaw a'r eira gauafol yn gwrteithio'r ddaear i fwrw ei chnwd yn yr haf. A bydd y lleuad yn nesaf attom ni, pa bellaf y bo'r haul oddiwrthym ni, fel na byddom heb oleuni pan fo'r nos hwyaf. A chan fod cyfnewidiadau cyflym yn beryglus i ddyn ac anifail, nid yw trymder gauaf yn neidio am ben poethder haf; eithr o fesur ychydig y cymmer y naill le'r llall. Beth sydd niweidiach i'th iechyd di nag oeri yn ddisymmwth ar ol chwysu? Am hynny o fesur munudyn neu ddau beunydd y byrhâ ac yr ymestyn y dydd, ychwanegu oerni neu wres. Ni lamma'r haul o'r naill gylch i'r llall mewn un dydd, eithr o fesur ychydig y llithra ef, fel y gallo'r naill ran o'r byd ei ddierbyn ef, y llall ei hebgor ef yn oreu.

Eglur yw nad oes ddeall yn y goleuadau hyn i'w cyfarwyddo eu hunain: canys lle y mae deall y mae bywyd hefyd, a gynhelir drwy ymborth mewn creaduriaid gweledig, ac o'r diwedd y derfydd drwy farwolaeth, y peth ni ddigwydd i'r rhai'n. Ni welwn chwaith un creadur byw, nad yw'n gwibio i mewn ac allan, weithiau yn symmud, weithiau yn sefyll: ond ceidw y rhai'n yr un mesurau yn oestadol, gan gerdded yn ddibaid. Pettai ganddynt ddeall, byddai ganddynt ewyllys hefyd, a'u tueddai hwynt i orphwysdra a rhydd-did, yn hytrach nâ llafur didor, er gwasanaethu creaduriaid llai nâ hwynt eu hunain. Diammeu ynte mai Duw sydd yn pennodi, ac yn rheoli eu rhodau; ac onid ê ni cherddent mwy nag olwynion cloc neu felin, heb ryw un celfyddgar i'w ffurfio, ac i'w trin i hynny.

Nid digon yw i'r ddaear gynhesrwydd heb wlybaniaeth. Pe gollyngasai Duw y môr am ben y tir, nis gallasai neb fyw; am hynny ordeiniodd bibellau i ddwyn dwfr o'r môr i ddiddanu'r tir: yr hwn wrth bistyllu drwy'r ddaear, megis drwy hidl, a edy ei helltni yn ol, fel y byddo yn groywach, a chymhwysach i ddïodi creaduriaid byw: felly y deilliaw afonydd o galon y ddaear, fel gwythi o'r afu, a gerddant drwy gorph pob gwlad.. Ac am nad yw lesol i'r afonydd chwaith fod cyn lletted a'r ddaear, gorchymyn Duw i darth esgyn i'r cymmylau, lle y tywycha gan oerni, ac y try yn ddwfr i ddïodi'r ddaear â chafodydd hyfryd, pan fyddo mwyaf ei syched hi, a llettaf ei safn hi. "Mor lïosog yw dy weithredoedd, O Arglwydd! gwnaethost hwynt oll mewn doethineb." Ps. civ. 24.

[Ar gais J. E. rhoddir y dernyn uchod, fel enghraifft, allan o waith C. Edwards.—Blwydd 1676.]

Gohebiaethau.

GYWEIRIO HEN GAPEL CWMMWRDU.

GOL., — Dymunaf yn ostyngedig caniatad i ddweyd gair trwy gyfrwng MOFYNYDD mewn ffordd o anogaeth ddodwyr y gymydogaeth i gymeryd y er o dan eu hystyriaeth, yn nghyd ll o'r corph Undodaidd. Clywais i'r eddar Dr. Lloyd i fod mor dda a ynu yr hen gapel yn eiddo'r Undodtra parhai'r ddaear yn ei bodoliaeth. a hefyd yn y Cwm hwn y rhoddodd y ch. Thomas Evans, Penpistill, yr lliad cyntaf i'r byd yma. Credwyf lle sydd wedi cael ei esgeuluso yn hir ydyw. Bu yn gapel pregethu laidd, a hyny yn ngwyneb llawer a iawn o anfanteision: a gwreiddiau lodiaeth yn y lle hwn ydynt heb eu ddiwreiddio hyd heddyw. Oni bai difaterwch a musgrellni wedi bod sai eglwys Undodaidd flodeuog yn nmwrdu, Brechfa. Hawdd ydyw i hyn oddiwrth y lluaws Undodwyr l yn byw yn y gymdogaeth, y rhai l trwy anfanteision wedi ymuno âg adau eraill.

isgwylir i'r Undodwyr i wneud rhyw- yn deilwng o honynt eu hunain ac leilwng o grefydd ac o angen y lle, n ystyr foesol ac ysbrydol.

id ydym i'r mesur lleiaf am daflu tyrwch ar eglwys barchus yr Anniwyr sydd yn y Cwm uchod, ond wyf fod yma ddigon o waith i ereill d i efengyleiddio y sydd ac a ddaw. ion y gofynir gan rywrai pwy sydd i ymeryd â'r gwaith? Ymddengys i fod pob peth yn hynod fanteisiol i ud hyn, oblegid y mae muriau yr gapel yn hynod o dda, fel y galler d nen arno heb fawr draul. 'Rwyf neddwl y gellir ei ddodi yn addas i li am £15.

yma y gwaith wedi ei gynllunio, a wylir mai nid hepian a phlethu law a wneir, yn nghyda breuddwydio w adeg mwy manteisiol i gychwyn, o esgusodion a rhyw fath o resymau l, pa rai sydd yn ysgafnach na i. O Undodwyr, coder ati yn ddios n llaw, a gweithier hyd nes byddo aethaf yn gorfod teimlo fod gwersyll newydd wedi ymsefydlu yn erbyn ei deyrnas.

Hyn yn fyr gyda gobaith frodyr y ceir clywed fod y gwaith yn cychwyn yn ddioed: a gorphwys yr eiddoch mewn cynhes gofion at bawb o'r brodyr,

Breyan Arms, Llanelly. D. D.

GOFYNIAD ODDIAR 1 COR. VIII. 6.

MR. GOLYGYDD,—Gobeithiaf y gwelwch fod yn dda i'r gofyniad hwn gael ymddangos yn eich cyhoeddiad clodwiw. Dymunwn gael ychydig eglurhad ar yr adnod sydd i'w gweled yn y 1 Corinthiaid, yr 8fed benod a'r 6fed adnod: "Eithr i ni nid oes ond un Duw. y Tad, o'r hwn y mae pob peth, a ninnau ynddo ef; ac un Arglwydd Iesu Grist, trwy yr hwn y mae pob peth, a ninnau trwyddo ef." Fe welir yn eglur fod y rhan gyntaf o'r adnod yn dysgu i ni nad oes ond un Duw, y Tad; a'r rhan olaf yn dysgu nad oes ond un Arglwydd Iesu Grist. Gan fod y rhan gyntaf o'r adnod yn diddymu duwiaeth y Mab trwy ddyweyd yn bendant nad oes ond un Duw y Tad; ai nid iawn yr ymresymiad, fod y rhan olaf o'r adnod yn diddymu arglwyddiaeth y Tad, trwy ddyweyd nad oes ond un Arglwydd Iesu Grist? Ac os mai dyn yn unig yw Crist, pa fodd y gall ef fod yn arglwydd ar bawb a phob peth; yn arglwydd ar y Tad ac ar yr Yspryd Glân? Waith mae y rhan olaf o'r adnod yn dyweyd yn bendant, un Arglwydd Iesu Grist. Ac os gwelwch chwi, neu rhai o'ch gohebwyr galluog yn dda i roddi eglurhad, fe rydd hyny foddlonrwydd mawr i mi.

Dowlais. THOS. THOMAS.

[Gan na bydd cyfle arall i wneud sylw o'r gofyniad yn y gyfrol bresennol, gadawer i ni ddywedyd gair neu ddau: rhaid i ni fod yn fyr iawn. Y mae cyfiawnder â'r apostol a synwyr cyffredin yn gofyn i ni beidio cymeryd y gair "Arglwydd" yma fel yn gyfystyr â "Duw." Yn aml yn y Testament Newydd cyfeirir yr un gair (*kurios*) MEISTR: gallesid ei gyfieithu felly yn yr adnod hon gyda chymwysder neillduol. Dylid sylwi hefyd mai arglwyddiaeth mewn pethau crefyddol a briodolir yma i Grist un *dderbyniedig a dibynol ar Dduw*. Actau ii. 36; 1 Cor. xv. 27.—GOL.]

Hanesion Cartrefol a Thramor.

AT EIN DARLLENWYR.

Gwelir ein bod, gyda'r rhifyn hwn, yn gorphen y pummed cyfrol o'r ail Gyfres o'n cyhoeddiad. Y mae pum mlynedd wedi myned heibio oddiar pan, ar gais cyffredinol oddiwrth yr Eglwysi Undodaidd ac eraill o bleidwyr rhydd-ymofyniad yn Nghymru, yr ymgymerasom yr ail waith at y gorchwyl o adolygu yr YMOFYNYDD. Oddiar hyny y mae llawer o gyfnewidiadau wedi cymmeryd lle, personol a chymdeithasol—rhai o honynt er gwaeth yn ein golwg ni, eraill er gwell; ond yn ddiau yn ol trefn ddoeth rhagluniaeth Duw, yr oll er daioni. Nid oes achos i rwgnach gan y sawl sydd ar ymadael wrth weled fod eu nerth a'u cymhwysderau yn lleihau a'u hanghyfleusderau yn cynhyddu. Ond edrych ar yr ochr arall i'r ddalen fe welir fod yr un drefn yn dwyn nerth a chymhwysderau cynnyddol i'r sawl sydd yn dyfod i lanw eu lle. Yr ydym ni yn bresennol mewn llawn fwriad i ddechreu cyfrol arall o'n cyhoeddiad, os caniateir bywyd a nerth, ac os ceir annogaeth ddigonol oddiwrth ein derbynwyr; ond gwnawn hyny, dealler, gyda disgwyliad hyderus y bydd i un o'n cynhorthwywyr, ieuengach a chymhwysach, yn fuan i gymmeryd yr olygiaeth oddiar ein dwylaw, ac i ninau gael rhoddi cyfarwyddid a chymmorth iddo ef, yn ol y byddo galwad ac yn ol y byddo nerth ac amgylchiadau yn caniattau. Ein barn gydwybodol yw, nas byddai yn iawn i roddi i fynu y fath gyhoeddiad a'r YMOFYNYDD ar y pryd hwn, nac i wneud hyny oll o herwydd anhawsderau personol. Ond yn sicr bydd ei barhad a'i ddefnyddioldeb i ymddibynu ar y nawdd a roddir iddo, ac ar gydweithrediad ei gynnorthwywyr. Mae y derbyniad a gafodd hyd yn hyn yn galw am gydnabyddiaeth a diolchgarwch.

Nid y'm yn achwyn ychwaith ar achwynwyr; eithr teimlwn fod ein cyhoeddiad bychan, ar amrywystyriaethau, yn mhell o ddyfod i fynu i ddymuniadau y rhai hyny o'i gyfeillion a ddisgwylient iddo fod yn gwbl deilwng o'r enwad y mae dan eu nawdd, ac o achos mawr gwirionedd a daioni yr hwn a broffesa ei amddiffyn. Ond etto rhaid cadw mewn cof y gellir ei wella er nas gellir ei wneu yn berffaith; ac mai gwell yw ceisi cyrhaedd a thaenu y daioni fyddo o few cyrhaedd nâ rhoddi i fynu bob ymdrech o ddiffyg cael pob peth wrth ein bod Och ni! gymmaint haws yw nodi diffyg ion nâ'u diwallu!

Mewn cyhoeddiad rhydd bydd dadleu aeth yn rhy aml yn myned tuhwnt derfynau buddioldeb ac adeiladaeth, a yn colli golwg ar yr amcan dechreuol Ond pa fodd mae gochelyd hyny? A all rhyw un ddangos y ffordd i wneu hyny heb droseddu ar reolau tegwch rhyddymofyniad? I'r dadleuwyr yr ddiau y perthyn i ofalu pa beth a ddy wedont ac ymha fodd, ac i gadw at pwnge; ac anhyfryd os nid annheg fydd i'r Golygydd, ar ei dyb o unrhyw drosedd i waeddi *stop*.

Yn ein rhifynau dyfodol gobeithio gellir gochelyd y beiau a nodwyd; ac galluogir ni, neu y sawl fyddo yn Olygyd yn ein lle, i gadw gwell trefn yn gystal mwy o amrywiaeth yn ein Cyhoeddiad. Mae amryw destunau pwysig ag sy galw am gael eu trafod yn yr YMOFYNYDD. Ceisiwn oll i gadw ein golwg ar yr hyn sydd wir, a'r hyn sydd er adeiladaeth. Mae derbynioldeb a buddioldeb cyhoeddiad yn ymddibynu llawer ar ddoethineb a ffyddlondeb ei ohebwyr.

Yn gweled fod ein gofod yn brin, a ninau yn nghanol yr annibendod o wneud rhyw fath o drefn ar gynnwysiad yr YMOFYNYDD am 1863, rhaid i ni ddeisyf ar ein darllenwyr i hebgor Hanesion Cartrefol a Thramor am y tro hwn. Mae y byd gwleidyddol ar y Cyfandir yn neilldual, mewn cryn gynnwrf, ac y mae llawer o ansicrwydd yn gyssylltiedig â phethau sydd o bwys neilldual. Yn ngwyneb hyn, cynghor Arglwydd Russell i'w wlad ydyw, "i orphwys a bod yn ddiolchgar." Ar y pryd hwn ystyrir Prydain Fawr fel y mwyaf gwarchodol *(conservative)* o'r teyrnasoedd. Mae y llywodraeth bresennol, trwy wrthod cymeryd rhan yn y *Congress* a gynnygwyd gan Ymherawdwr Ffrainge, wedi rhoddi tramgwydd dirfawr mae'n debyg i'r Newyddiaduron Ffrengig, ac i eraill hefyd. Ond y mae yn ddigon tebyg y

ymddengys maes o law ei bod yn dda i'r byd fod y wlad hon mewn sefyllfa i allu gwneud felly; ac y gwelir ei bod yn hyny wedi gwneud yn ddoeth. Mae y rhesymau dros wneud felly gerbron y wlad a cherbron y byd bellach. Nis gellir eu rhoddi yma. Ac heb gydsyniad Prydain Fawr braidd, dybygem, y cyferfydd y *Congress* amcanedig. Amser, modd bynag, a ddengys. Y mae llywodraethau Germany bron yn unfrydol i geisio dwyn Holstein a Schleswig oddiar Christian IX., brenin newydd Denmarc; ond y mae y llywodraeth Brydeinig eisoes wedi hyspysu, mewn modd pendant, ei phenderfyniad i amddiffyn hawliau brenin Denmarc yn unol â'r Cyttundeb a wnaed gan Alluoedd Mawr Ewrop ac eraill yn 1852. Gwyddys mai tad Tywysoges Cymru yw Christian IX. o Denmarc.

Mae cyffelyb ansicrwydd yn bresennol mewn perthynas i sefyllfa pethau yn America. Disgwylir fod brwydrau pwysig wedi cymmeryd lle erbyn hyn yn Virginia ac yn Tennesee.

Mae yr Undebwyr wedi llwyddo i sefydlu eu hunain ar yr afon Rio rhwng Texas a Mexico; yr hyn a fydd yn rhwystr i'r cyfnerth a ddygid i'r Deheuwyr ar hyd y Rio o Matamoras.

Y mae Llywodraethwr Ffrainge yn ddyn deallus a chyfrwys iawn. Nid yw ei gynnygion bob amser yn llwyddiannus, yr hyn wrth gwrs sydd yn siomedigaeth iddo. Yr oedd cynnyg cael *Congress* yn Paris, er arolygu y *Map of Europe*, &c. yn ddiau yn beth mawreddog ddigon, a chymmeradwy iawn gan y Ffrangeod ac yn enwedig gan y clwt sydd wedi ymwerthu i'w amcanion. Ond nid yw yn debygol y bydd i'r *Congress* wahoddedig i gymmeryd lle; yr hyn nid all lai na bod yn ostyngiad i'r Ymherawdwr yn ngwydd y wlad, a hyny yn naturiol ddigon, am ei fod wedi cynnyg peth nas gallasai yn rhesymol ddisgwyl ei gyflawni.

CYFARFOD NADOLIG YN Y NOTAIS.

Cynnelir y Cyfarfod, fel arferol, ar y dau cyntaf ar ol Nadolig, yr 31ain o Ragfyr—y dydd olaf yn y flwyddyn, fel mae yn digwydd eleni. Bydd y cwrdd prydnawn o'r blaen i ddechreu am 6 o'r gloch, a bore dydd Iau am 11eg. Dymuna Mr. Lloyd i ni, trwy gyfrwng yr Ymofynydd, i roi gwahoddiad drosto i'r gweinidogion i ddyfod i'r cwrdd; ac i hyspysu mai y *station* nesaf i'r Notais yw *Pyle:* ac y dymuna i'w gweled oll.

Marwolaethau.

Ar y 6fed o Hydref, o'r darfodedigaeth, mewn canlyniad i'r cancer yn y fron yn oddifewnol, Mrs. Anne Hughes, gwraig Mr. David Hughes, Cribin, Ystrad. Yr oedd yn aelod rheolaidd a chymmeradwy o eglwys Cribin, ac fel y cyfryw yn llanw ei lle; yr oedd yn 68 oed. Yr oedd yn hynod o ddiwyd fel pen teulu—fel gwraig a mam—a gwelir ei heisiau yn hir gan ei gwr a'i phlant. Pregethodd gweinidog Cribin ar yr achlysur i gynulleidfa barchus oddiwrth Salm 102. 11, 12 adn.

Ar y 4ydd o Dachwedd, yn y Notais, yn 73 oed, ar ol dros 20 mlynedd o gystudd blin, Robert Elias. Gadawodd weddw, un ferch, ae wyrion i alaru ar ei ol. Bu yn aelod yn y lle uchod dros ddeugain mlynedd. Teimlir hiraeth gan ei hen frodyr ar ol ei gyfeillach. Na fydded i ni dristau megys eraill y rhai nid oes ganddynt obaith (hyny yw, debygem ni,) y rhai na wyr am fyd a ddaw ag a ddaeth i'r goleu trwy adgyfodiad Iesu: canys os ydym yn credu farw Iesu a'i adgyfodi, felly y rhai a hunasant yn yr Iesu a ddwg Duw hefyd gydag ef. Dydd Gwener canlynol daeth tyrfa luosog o berthynasau a chyfeillion i'w angladd, pan y pregethodd yr ysgrifenydd oddiwrth y testun ag oedd yr ymadawedig ei hun wedi ei ddewis; sef 2 Timotheus ii 3. Felly mae ein hen gydfilwyr lawer o honynt wedi rhoi eu harfau i lawr, bydded i ninau tra yn y frwydr "gymmeryd attom holl arfogaeth Duw; gwregysu lwynau'r meddwl â gwirionedd, dwyfroneg cyfiawnder, esgidiau parottoad efengyl y tangnefedd," fel gwir filwyr Tywysog heddwch; "tarian y ffydd, helm yr iachawdwriaeth, a chleddyf yr yspryd yr hwn yw gair Duw," gan weddio bob amser, fel y byddom barod a chymwys i glywed y gwahoddiad hyfryd, "Deuweh fendigedigion fy Nhad, etifeddweh y deyrnas, &c."

Tachwedd yr 21ain, yn 82 mlwydd oed, William Elias, o'r *Farmers' Arms*, Notais, brawd i'r rhag-ddywededig Robert Elias. Yr oedd yr ymadawedig yn ddyn parchus ei gymmeriad, tawel a charedig. Ar bob galwad dangosai ei barodrwydd i roddi llaw o gymmorth i'r achos yn y Notais; teimlir hiraeth a cholled ar ei ol. Ar ddydd ei gladdedigaeth, cyn cychwyn o'r tŷ, pregethodd y Parch. T. Lloyd i dyrfa luosog o berthynasa chyfeillion oddiwrth 1 Pedr i 3, 4.

Barddoniaeth.

Y DERWYDDON

Tôn,—"*Merch Megan.*"

Ow! Ow, ble mae'r dyn sy'n hoff o hanesion,
Pryf waith y Derwyddon hên oesoedd i nol,
Mae'n werth i ni adrodd er lloni pob monwes
Eu gweithion dirodres, mewn dyffryn a dol.
Prif feirdd a llenorion, rhagorion tir Gwalia,
Ddaeth gynt o Gaerdroea hyd fana' Swydd Fôn,
I daenu dysgeidiaeth i bob rhyw sefyllfa,
A doeth wybodaetha' yn ngyfraith ein Iôn.

Hwynthwy oedd blaenoriaid hên Gymry yn ddiau,
A llusern ein teidau er goleu pob gwlad,
A phenaf ddysgawdwyr y gelf a'r gwyddorau,
A phob gwybodaethau er llunio 'n gwell-had,
Mewn cyleh cysegredig, dan gysgod y dderwen,
Gweinyddai'r gwyr trylen gyfiawnder a hedd;
A gwresog gofleidient farddoniaeth ac awen,
Yn unawl a'u helfen er bywyd i'r wledd.

Tan belydr yr haul a llygad goleuni
Ymroent i addoli Creawdwr y byd;
Yn dawel eisteddent dan gysgod y llwyni,
Yn unawl wresogi fel brodyr y' nghyd.
Cyhoeddai y Derwydd y gyfraith yn dirion,
A'r Bardd, y mesuron, cynghanedd a chân,
A'r Ofydd gofnodai eu manawl orchwylion,
Er uno pob calon fel hyn heb wahan.

Trecynon. CARW COCH.

ENGLYNION

er cof am yr hen brydydd, Ifan Thomas Rhys, (crydd,) Llanarth, Ceredigion.

Yr awen hoff arweinydd—I. T. Rhys
Gwnai ddiatreg Brydydd;
Gyda ei gan e gwyd grŷdd
Neu gydryw yn Gadeirydd!

Llanarth, ei barth sy'n berwi—o foliant
Y'ngafael ei wersi!
Diliau'r awen wych dâl-roi
Yn glyd ein iaith glodwiw nî.

Gadai'r wnïo i gyd—i Wynedd—ëi
A'i awen drwy 'i thuedd;
A Llundain y llon adwedd
I orphwys—a glwys cae'r gwledd!

Gorpholaeth, nid helaeth, diolwg—sione
Gwasanaeth wnai'n amlwg;
Hir ddwylaw—rodd i'w olwg
Gadwai draw o gôd y drwg.

Pabydd anufudd doi' i anfon—allan
O'i allu dr'n ëon;* *Gormes y Pab
A thawai alw—'etholion'—mewn enwad
Dan reol ynad—dyner 'Lyw' union.

Waith gosod barod brydydd—i orwedd
Mae'r awen yn llonydd;
Yn galw rhwng y gwèlydd
'E ddaw adgyfodiad ddydd.'

Trefigod. T. H.

ENGLYN I DRACHWANT.

Mônig elfur mewn gwaelfyd, yw trachwant:
Mae'n trochi'r meddylfryd:
Fel y môr, yn agoryd,
Am ei hab y mae o hyd.

G. BRYCHEINIOG.

ENGLYN I DWR CAM CAERFFILI.

Y Twr Cam, dinam y dyd,—arwyddion
Ireiddwych celfyddyd;
Iach y gwiria, uwch gweryd,
Y deil efe hyd ail fyd.

G. BRYCHEINIOG.

ENGLYN

wrth wrando y Parch. Rhys J. Jones, A.C., yn pregethu oddiwrth Salm 37. 16, "*Gwell yw'r ychydig sydd gan y cyfiawn, na mawr olud annuwiolion lawer.*"

Cyfoeth nid yw i'r cyfiawn—ond gwagedd,
Neu wegi annhiriawn!
A sofl yw, nid safle iawn,
I'w olud a'i ran hylawn.

Aberdar. EIDDIL CYNON.

HEN BENILL.

Cyn i fi yfed, nid oeddwn yn gweled
Un ffordd yn y byd i dalu fy nyled;
Ond wedi i fi yfed, yr oeddwn yn gweled
Digon i dalu a digon yn warced.

ANAD.

Diwedd Cyfrol V.

PENYBONT: ARGRAFFWYD GAN WILLIAM LEYSHON.